Ymholiadau Compostio ac Atebion

Dyma rai awgrymiadau ac atebion mewn ymateb i'r ymholiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â chompostio yn y cartref.

1) Mae'r bin yn sych a does dim byd i'w weld yn digwydd!
Mae'n siŵr bod gennych ormod o gynhwysion brown sych (sy'n pydru'n araf) yn y bin. Rhaid i chi gyflymu gwaith eich bin trwy gymysgu deunydd "gwyrdd" sy'n pydru'n gyflym. Pethau da, naturiol sy'n cyflymu gwaith eich bin yw glaswellt (ychydig ohono), danadl poethion, cyfardwf ac wrin. Mae gwlybaniaeth yn ffactor bwysig, ac yn ddelfrydol dylai eich bin fod mor damp a sbwng wedi'i wasgu

2) Mae cynnwys y bin wedi mynd yn wlyb, yn llysnafeddog ac mae arogl drwg arno!
Mae gormod o ddeunydd "gwyrdd"(sy'n pydru'n gyflym) yn y bin. Cymysgwch ychydig o ddeunydd "brown" sych gydag o, er enghraifft dail, brigau, gwellt a chardbord. Bydd y rhain yn amsugno ychydig o'r gwlybaniaeth ac yn agor y strwythur i adael ychydig o aer i mewn i'r bin.

3) Mae'r bin yn denu pryfed, beth fedra i wneud?
Mae'n debygol mai pryfed ffrwythau yw'r rhain sy'n cael eu denu at y gwastraff ffrwythau a llysiau yn eich bin. Wrth ychwanegu'r math hwn o wastraff, naill ai claddwch o ynghanol cynnwys y bin neu gorchuddiwch o gyda gwastraff gardd a chardbord gwlyb. Wrth adael y caead ychydig yn agored gall pryfed fynd a dod yn lle eu bod yn hel dan y caead ac yn creu cwmwl o bryfed pan fydd y caead yn cael ei godi. Gallwch hefyd ychwanegu calch i wneud yr amgylchiadau'n fwy alcalin.

4) Ga i roi chwyn yn y bin compost?
Peidiwch ag ychwanegu chwyn dinistriol fel cwlwm y cythraul, llys y gymalwst, dail tafol, efwr ac yn y blaen. Ond, gallwch roi chwyn glaswelltog i mewn cyn belled nad ydynt mewn had. Yn gyffredinol nid yw biniau compost cartref yn cyrraedd y tymheredd sydd ei angen i ladd hadau chwyn a chwyn dinistriol, sef tua 140 – 150 gradd Fahrenheit

5) Dydi'r bin compost ddim yn cynhesu, oes ots?
Peidiwch â disgwyl i'ch bin gynhesu gan fod biniau cartref yn rhy fach i gynhyrchu llawer o wres. Fodd bynnag, bydd y cynnwys dal yn compostio ond yn llawer arafach na mewn pentwr poeth. Gallwch helpu'r broses trwy gadw'r bin mewn man heulog ac yn y gaeaf gallwch inswleiddio'r bin trwy roi haen o garped ar ei ben.

6) Mae pob math o bryfetach yn y bin, ddylen nhw fod yno?
Dylen, mae nifer di-rif o greaduriaid llesol yn rhan o'r broses compostio. Dyma'r arwydd ei fod yn fin compost iach felly gadewch lonydd iddyn nhw!

7) Rydw i wedi rhoi plisgyn wy yn y bin a dydyn nhw ddim i weld yn cael eu torri i lawr!
Pan fyddwch yn ychwanegu plisgyn wy, torrwch nhw yn gyntaf, a pheidiwch â phoeni os ydynt dal yn eich compost gorffenedig, maen nhw'n fioddiraddadwy ac mi fyddant yn diflannu mewn amser. Mae'r gwerth maethol yn dda i'r pridd.

8) Dydw i ddim yn hapus iawn gydag ansawdd y compost, mae'n edrych yn arw ac yn brennaidd!
Peidiwch â phoeni, mae'n debyg na fydd eich compost yn edrych fel cynnyrch masnachol. Efallai y bydd yn edrych yn brennaidd. Gallwch hidlo'r darnau mawr allan a'u rhoi nhw yn ôl trwy'r broses. Cofiwch y bydd gan eich compost werth maethol llawer gwell na chompost o siop a bydd yn llawer gwell i'ch gardd.